Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

NAFWC 2013
Cofnodion cyfarfod 27 Mehefin 2013

Dyddiad: Dydd Iau 27 Mehefin 2013
Amser: 14.00 – 15.00
Lleoliad: Swyddfa'r Llywydd, Tŷ Hywel

# Cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013

Yn bresennol:
Y Llywydd, y Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

Swyddogion yn bresennol:
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Dave Tosh, Cyfarwyddwr TGCh
Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu
Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

Eraill:
David Melding AC

AC(4)2013(9)
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013

1. Cyflwyniad y Cadeirydd

Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2013

Cytunwyd ar y cofnodion.

2. Gwella ein Gwasanaethau Dwyieithog

Mae Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae'r cynllun yn nodi camau y bydd y Comisiwn yn eu cymryd i gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel y'u hamlinellir yn y Ddeddf, a'r camau a gaiff eu cymryd i gyflawni uchelgais y Comisiwn i ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae nifer o feysydd blaenoriaeth a thargedau wedi'u nodi yn y Cynllun a gaiff eu darparu dros y tair blynedd nesaf a fydd yn ein gosod fel sefydliad enghreifftiol wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi sylw i'r materion a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad ac ymgyngoreion yn ystod y cyfnod y bu'r Cynulliad yn ystyried y Bil Ieithoedd Swyddogol.

Cymeradwywyd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft gan y Comisiwn. Caiff ei ystyried gan y Cynulliad yn ystod wythnos ola'r tymor.

Hefyd bu'r Comisiynwyr yn trafod ffyrdd y byddai modd gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog, i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau. Yn benodol, teimlwyd bod cyfleoedd sylweddol i wneud defnydd arloesol o dechnolegau newydd.

Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn parhau i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cyfieithu peirianyddol, ac yn eu profi, ac y byddent yn cyflwyno'u cynigion i'r Comisiwn yn yr hydref.

Daeth y Comisiynwyr i'r casgliad y byddai'n briodol rhoi ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cofnod y Trafodion ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, roeddent yn awyddus i edrych yn fanwl ar arferion a chynlluniau yn y seneddau eraill, a gwneud cynnydd o ran y cofnod clyweledol, cyn penderfynu ynghylch gwneud newidiadau i'r dull gweithredu.

Cytunwyd y dylai swyddogion ymchwilio i'r materion a'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer Cofnod y Trafodion, ac y dylai'r Comisiwn ystyried y mater yn fwy manwl yn yr hydref.

Diolchodd y Comisiynwyr i Rhodri Glyn Thomas a'i swyddogion am eu gwaith ar y Cynllun drafft a'u hymdrechion parhaus yn y maes hwn.

Cytunwyd mai dim ond Agenda a Chofnodion y cyfarfod hwn fyddai'n cael eu cyhoeddi. Caiff y Cynllun i osod gerbron y Cynulliad ar 17 Gorffennaf 2013.

Camau i'w cymryd:

Y wybodaeth ddiweddaraf i gael ei rhoi i'r Comisiynwyr am nifer yr Aelodau Cynulliad sy'n gwneud eu cyfraniadau yn Gymraeg yn y Cyfarfod Llawn ac mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Y swyddogion i edrych ar y ddarpariaeth o wiriwyr sillafu/geiriaduron yn Gymraeg a Saesneg.

Yr Ysgrifenyddiaeth
Mehefin 2013